Cardiff Council Update: 8th September

Here is the latest update from Cardiff Council, covering: the Cardiff and the Vale plan to prevent COVID-19 transmission; some Roath Park Primary School and Ysgol Bro Edern pupils asked to self-isolate; and COVID-19 safety improvement notices issued to city-centre bars.

COVID-19 is on the rise in Cardiff.
Do your bit to help us slow the spread of infection.
#KeepWalesSafe

Plan to prevent COVID-19 transmission for Cardiff and the Vale published

A plan has been published detailing how Cardiff and Vale University Heath Board, Cardiff Council and the Vale of Glamorgan Council will continue to work together to prevent the spread of COVID-19.

The plan sets out how any rise in local cases and clusters will be identified, the nature of the local response, and how decisions will be agreed and action taken in the event of an outbreak.

Twenty-one separate measures are being monitored by the Cardiff and Vale Test, Trace, Protect service in a bid to identify early warning signs of a spike in cases. If concerning trends or patterns are identified through this mechanism a panel of experts is on standby to be convened, review the data and recommend measures that may help slow the spread.

The plan has been published as new figures have shown cases are continuing to rise in the region.

Educational settings, office workplaces, healthcare settings, non-food factories, coastal areas, and the night-time economy have all be marked for close surveillance by the Cardiff and Vale Test, Trace, Protect service.

Cllr Huw Thomas, Leader of Cardiff Council, said: “We have always known that as restrictions ease across Wales and more establishments begin to re-open, the risk of community transmission will increase.

“The most densely populated regions remain the highest risk, and this certainly applies to the capital city and neighbouring Vale of Glamorgan. It is for this reason that the three partners have been working so closely to prepare a comprehensive plan for prevention and response.

“Licensed premises make a significant contribution to the economy of both Cardiff and the Vale but bars and pubs in particular could be a cause for concern if customers are not following the guidelines on household groups and social distancing.”

Len Richards, CEO of the University Health Board, said: “As things stand, no patient is currently receiving critical care for Covid-19 related illness in Cardiff and Vale University Health Board and August saw the first day since 15th March that all of the region’s care homes have been free of confirmed Covid-19 cases.

“We cannot, however, be complacent about the risk posed by the virus. It is vitally important that people continue to practice social distancing, regular handwashing, and when keeping apart isn’t possible wear a mask. There is always a risk of transmission in busy care settings and so we are constantly reviewing the measures in place to ensure they are as effective as possible.”

The Cardiff and Vale region has the highest number of pupils and students in Wales and the largest hospital in Wales (University Hospital of Wales, UHW). It is also home to many large workplaces.

Cllr Neil Moore, Leader of the Vale of Glamorgan Council, said: “Our regional Test, Trace, Protect service has rightly identified large workplaces as a highly likely source of transmission. Factories with busy and fast paced production lines and loud machinery that can cause people to shout or stand close together are an obvious risk and the correct use of PPE in these settings is very important.

“Office based workplaces too can pose a risk of spread of the virus. They are usually indoor spaces with limited air flow, a high density of people, and are an environment in which people can easily relax and forget to heed the guidance on keeping apart.”

The public health guidance for Wales remains unchanged. Maintaining social distance, regularly washing hands and wearing a face covering remain key in preventing the transmission of Covid-19. People should ideally only mix indoors with people from their own household and stick strictly to the four household bubble rules. Most importantly, anyone displaying any of the three main symptoms – a new cough, a temperature, or a loss of taste or smell – must get a test.

Click here to read the plan in full:
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/files/Cardiff-and-Vale-Covid-19-Prevention-and-Response-Plan-v1.1-21.08.2020.pdf

Roath Park Primary School and Ysgol Bro Edern pupils asked to self-isolate

60 pupils at Roath Park Primary School have been asked to self-isolate for 14 days following the confirmation of a Covid-19 case at the school.

The Year 6 pupils have been identified as close contacts of a confirmed Covid-19 case at the school and have been asked to remain at home in order to reduce the possible spread of the virus to family, friends and the wider community.

An enhanced clean will be carried out today on areas of the school used by the year group.

Head Teacher, Mr Jonathan Keohane, said: “Following confirmation late last night that one of our pupils has tested positive for Covid-19 we acted as quickly as possible, following guidance from Public Health Wales, to inform the parents of all pupils who have been in close contact with the pupil in question.”

“Thanks to the strong procedures we have in place, the number of our pupils needing to self-isolate is limited to 60 pupils in one year group and no staff are required to self-isolate.

“We have already implemented enhanced cleaning regimes but as a precaution additional cleansing is also taking place at the school.”

“There’s a strong school community at Roath Park and I’m sure there will be some understandable concern at this news, but I would like to reassure all our parents, and especially our pupils, that we are listening very closely to the advice given to us by Public Health Wales and the Council to ensure that the potential for any further transmission is minimised and the school remains safe.”

“Staff will remain vigilant of any pupils displaying symptoms and will take appropriate action if they suspect a pupil could potentially have Covid-19.”

30 pupils at Ysgol Bro Edern have been asked to self-isolate for 14 days following the confirmation of a Covid-19 case at the school on Sunday (6th September).

The Year 7 pupils have been identified as contacts of a confirmed Covid-19 case at the school and have been asked to remain at home in order to reduce the possible spread of the virus to family, friends and the wider community.

An enhanced clean has been carried out on areas of the school used by the class.

Head Teacher, Mr Iwan Pritchard, said: “Following the confirmation that a pupil at the school has tested positive for Covid-19 we acted as quickly as possible, in conjunction with Public Health Wales to contact all pupils within the pupil’s class

bubble. As a precaution, additional cleaning, on top of the daily cleansing regime we have in place, has also been completed.

“Due to the procedures we have in place, restricting contact between different classes and logging seating plans of all lessons, we have been able to limit the numbers of pupils needing to self-isolate and there is no need for parents or pupils that have not been contacted, to self-isolate or be unduly concerned.”

“Having kept to the 2 metre social distancing rule, or worn a face covering if this hasn’t been possible, no school staff need to self-isolate.”

“Staff at the school will continue to be vigilant of any pupils displaying symptoms and take appropriate action if they suspect a pupil could potentially have Covid-19.”

The parents of all pupils identified as contacts were contacted by letter and text message on Sunday evening.

Cabinet Member for Education, Cllr Sarah Merry said: “The safety of pupils in our schools is a priority and procedures are in place to ensure they are as protected as possible, but with pupils at two Cardiff schools now needing to self-isolate, this is a clear reminder that Covid-19 hasn’t gone away.

“I would urge all parents to remain alert and ensure that their children do not attend school if they develop symptoms, and ask all residents, parents or otherwise, to help Keep Wales Safe by following Welsh Government Covid-19 guidance.”

https://gov.wales/coronavirus-regulations-guidance

City centre bars in Cardiff hit with Covid-19 safety improvement notices

Five popular bars in Cardiff centre were served with improvement notices by officers from the Shared Regulatory Service this weekend for failing to comply with Covid-19 health and safety measures set out by Welsh Government.

Coyote Ugly and Peppermint on St Mary Street, Mocka Lounge on Mill Lane, plus Rum and Fizz, and Gin and Juice on High Street were all issued with notices giving them 48 hours to make changes to the way they are operating.

If the necessary improvements are not made then venue closure notices could be served by the Council under the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020.

Cabinet Member for Environment, Cllr Michael Michael said: “It is the responsibility of businesses to ensure that social distancing is maintained and their premises can be used in a way that is safe for customers and staff and minimises the potential for Covid-19 to spread.”

“Ensuring the city centre is safe to visit is a priority and scenes like those seen on St Mary Street at the weekend are simply unacceptable.

“Businesses should be in no doubt that we will take action against any premises that aren’t operating in a safe manner. Officers will be returning to the businesses issued with improvement notices, and visiting others across the city, and will not hesitate to issue closure notices if needed.”

Coyote Ugly was visited by officers on Saturday following the emergence of video footage on social media showing customers queueing to enter the venue failing to social distance. Following the serving of an improvement notice on Saturday the venue acted quickly to resolve a number of identified issues and the business is continuing to work with officers to ensure future compliance with the Notice and regulations. Further compliance inspections are scheduled this week.

Members of the public with concerns about a business can report it via our C2C contact centre on 029 2087 2087.

https://www.srs.wales/en/coronavirus/improvement-notices-served.aspx

Y wybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Caerdydd: 8 Medi

Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Caerdydd, sy'n ymdrin â: cynllun Caerdydd a'r Fro i atal trosglwyddo COVID-19; gofyn i rai o Ddisgyblion Ysgol Gynradd Parc y Rhath ac Ysgol Bro Edern hunanynysu; a chyflwyno hysbysiadau gwella diogelwch COVID-19 i fariau canol y ddinas.

Mae COVID-19 ar gynnydd yng Nghaerdydd.
Gwnewch eich rhan er mwyn ein helpu i arafu lledaeniad yr haint.
#DiogeluCymru

Cyhoeddi cynllun i atal COVID-19 rhag lledaenu yng Nghaerdydd a'r Fro

Mae cynllun wedi'i gyhoeddi yn nodi sut y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg yn parhau i gydweithio i atal COVID-19 rhag lledaenu.

Mae'r cynllun yn nodi sut y caiff unrhyw gynnydd mewn achosion a chlystyrau lleol ei nodi, natur yr ymateb lleol, a sut y cytunir ar benderfyniadau ac y cymerir camau pe bai argyfwng arall.

Mae 21 o fesurau ar wahân yn cael eu monitro gan wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu Caerdydd a'r Fro mewn ymgais i nodi arwyddion cynnar o gynnydd sydyn mewn achosion. Os nodir tueddiadau neu batrymau sy'n peri pryder drwy'r mecanwaith hwn, mae panel o arbenigwyr wrth law i adolygu'r data ac argymell mesurau a allai helpu i arafu lledaeniad y feirws.

Mae'r cynllun wedi'i gyhoeddi wrth i ffigurau newydd ddangos bod nifer yr achosion yn parhau i godi yn y rhanbarth.

Nodwyd bod lleoliadau addysgol, swyddfeydd, lleoliadau gofal iechyd, ffatrïoedd di-fwyd, ardaloedd arfordirol, ac economi'r nos i gyd yn destun goruchwyliaeth glos gan wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu Caerdydd a'r Fro.

Dwedodd Arweinydd Cyngor Caerdydd, y Cynghorydd Huw Thomas: "Roeddem wastad yn gwybod wrth i gyfyngiadau gael eu llacio ledled Cymru ac wrth i fwy o sefydliadau ddechrau ailagor y byddai'r risg o drosglwyddo'r feirws yn y gymuned yn cynyddu.

"Yn y rhanbarthau mwyaf poblog y mae'r risg uchaf o hyd, ac mae hyn yn sicr yn berthnasol i'r brifddinas a Bro Morgannwg. Am y rheswm hwn mae'r tri phartner wedi bod yn gweithio mor agos i baratoi cynllun cynhwysfawr ar gyfer atal ac ymateb i'r feirws.

"Mae safleoedd trwyddedig yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi Caerdydd a'r Fro ond gallai bariau a thafarndai yn arbennig fod yn destun pryder os nad yw cwsmeriaid yn dilyn y canllawiau ar grwpiau aelwyd ac ymbellhau cymdeithasol."

Dywedodd Len Richards, Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd y Brifysgol: "Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gleifion yn cael gofal critigol am salwch sy'n gysylltiedig â Covid-19 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac, ym mis Awst, gwelwyd y diwrnod cyntaf ers 15 Mawrth heb unrhyw achos positif o Covid-19 yn holl gartrefi gofal y rhanbarth.

"Fodd bynnag, ni allwn fod yn hunanfodlon ynglŷn â'r risg sydd ynghlwm wrth y feirws. Mae'n hanfodol bwysig bod pobl yn parhau i ddilyn mesurau ymbellhau cymdeithasol, yn golchi dwylo'n rheolaidd a, phan nad yw'n bosib cadw ar wahân, yn gwisgo masg. Mae bob amser risg o drosglwyddo'r feirws mewn lleoliadau gofal prysur ac felly rydym yn adolygu'r mesurau sydd ar waith yn gyson i sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl."

Yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro mae'r nifer uchaf o ddisgyblion a myfyrwyr yng Nghymru a'r ysbyty fwyaf yng Nghymru (Ysbyty Athrofaol Cymru). Mae hefyd yn gartref i lawer o weithleoedd mawr.

Dywedodd y Cynghorydd Neil Moore, Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg: "Mae ein gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu rhanbarthol wedi nodi, yn gwbl briodol, fod gweithleoedd mawr yn debygol iawn o fod yn ffynhonnell ar gyfer trosglwyddo'r feirws. Mae ffatrïoedd â llinellau cynhyrchu prysur a chyflym a pheiriannau swnllyd sy'n gwneud i bobl weiddi neu sefyll yn agos at ei gilydd yn peri risg amlwg ac mae defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol yn gywir yn y lleoliadau hyn yn bwysig iawn.

"Gall swyddfeydd hefyd fod yn risg o ran lledaenu'r feirws. Mae'r rhain fel arfer yn fannau dan do gyda llif aer cyfyngedig a llawer o bobl, ac maent yn amgylchedd lle gall pobl ymlacio'n ddigon hawdd ac anghofio dilyn y canllawiau ar gadw pellter."

Nid yw'r canllawiau iechyd y cyhoedd yng Nghymru wedi newid. Mae cadw pellter cymdeithasol, golchi dwylo'n rheolaidd a gwisgo gorchudd wyneb yn parhau'n allweddol i atal trosglwyddiad Covid-19. Yn ddelfrydol, dim ond gyda phobl o'u cartrefi eu hunain y dylai pobl gymysgu, a dylid glynu'n llym wrth y rheol swigen 4 aelwyd. Yn bwysicaf oll, rhaid i unrhyw un sy'n arddangos unrhyw un o'r tri phrif symptom – peswch newydd, tymheredd, neu golli blas neu arogl – gael prawf.

I ddarllen y cynllun yn llawn, cliciwch yma:
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/files/Cardiff-and-Vale-Covid-19-Prevention-and-Response-Plan-v1.1-21.08.2020.pdf

Gofyn i rai o Ddisgyblion Ysgol Gynradd Parc y Rhath ac Ysgol Bro Edern hunanynysu

Gofynnwyd i 60 o ddisgyblion Ysgol Gynradd Parc y Rhath hunanynysu am 14 diwrnod yn dilyn cadarnhau achos o Covid-19 yn yr ysgol.

Nodwyd bod y disgyblion o Flwyddyn 6 wedi bod mewn cysylltiad â rhywun y cadarnhawyd bod Covid-19 arno yn yr ysgol a gofynnwyd iddynt aros gartref er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ledaenu'r feirws i'w teuluoedd, eu ffrindiau a'r gymuned ehangach.

Bydd mwy o lanhau heddiw yn ardaloedd yn yr ysgol a ddefnyddiodd y grŵp blwyddyn hwnnw.

Dywedodd y Pennaeth, Mr Jonathan Keohane: "Yn dilyn cadarnhad yn hwyr neithiwr bod un o'n disgyblion wedi cael canlyniad prawf Covid-19 positif, gweithredom yn

unol ag arweiniad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru cyn gynted â phosibl a rhoi gwybod i rieni pob disgybl a fu mewn cysylltiad agos â'r disgybl dan sylw."

"Diolch i'r gweithdrefnau cryf sydd gennym ar waith, mae nifer ein disgyblion mae angen iddyn nhw hunanynysu wedi'u cyfyngu i 60 o ddisgyblion mewn un grŵp blwyddyn ac nid yw'n ofynnol i unrhyw staff hunanynysu.

"Rydym eisoes wedi gweithredu gwell trefnau glanhau ond fel rhagofal mae gwaith glanhau ychwanegol hefyd yn digwydd yn yr ysgol."

"Mae cymuned ysgol gref ym Mharc y Rhath ac rwy'n siŵr y bydd rhywfaint o bryder dealladwy yn sgil y newyddion hyn, ond hoffwn dawelu meddwl ein holl rieni, ac yn enwedig ein disgyblion, drwy ddweud ein bod yn rhoi sylw craff iawn i'r cyngor a gawn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Cyngor i sicrhau bod y potensial ar gyfer unrhyw drosglwyddo pellach yn cael ei leihau a bod yr ysgol yn parhau'n ddiogel."

"Bydd staff yn parhau'n wyliadwrus am unrhyw ddisgyblion sy'n dangos symptomau ac yn rhoi camau priodol ar waith os ydynt yn amau bod Covid-19 ar ddisgybl."

Gofynnwyd i 30 o ddisgyblion Ysgol Bro Edern hunanynysu am 14 diwrnod yn dilyn cadarnhau achos o Covid-19 yn yr ysgol ddydd Sul (6 Medi).

Nodwyd bod y disgyblion o Flwyddyn 7 wedi bod mewn cysylltiad ag achos o Covid-19 yn yr ysgol a gofynnwyd iddynt aros gartref er mwyn lleihau'r posibilrwydd o ledaenu'r y feirws i'w teuluoedd, eu ffrindiau a'r gymuned ehangach.

Mae gwaith glanhau trylwyr wedi'i gwblhau yn yr ardaloedd o'r ysgol a ddefnyddir gan y dosbarth.

Dywedodd y Pennaeth, Mr Iwan Pritchard: "Yn dilyn y cadarnhad bod disgybl yn yr ysgol wedi cael prawf Covid-19 cadarnhaol, aethom ati cyn gynted â phosibl, ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gysylltu â phob disgybl yn swigen ddosbarth y disgybl dan sylw. Er mwyn bod yn ofalus, mae gwaith glanhau ychwanegol, ar ben y drefn lanhau ddyddiol sydd gennym ar waith, hefyd wedi'i gwblhau.

"Oherwydd y gweithdrefnau sydd gennym ar waith, sy'n cyfyngu ar y cyswllt rhwng gwahanol ddosbarthiadau ac yn logio cynlluniau eistedd ar gyfer pob gwers, rydym wedi gallu cyfyngu ar nifer y disgyblion sydd angen hunanynysu ac nid oes angen i rieni neu ddisgyblion na chysylltwyd â hwy, hunanynysu neu fod yn rhy bryderus."

"Gan eu bod wedi dilyn y rheol ymbellhau cymdeithasol o 2 fetr, neu wedi gwisgo gorchudd wyneb pan nad oedd hynny'n bosibl, nid oes angen i unrhyw staff yn yr ysgol hunanynysu."

"Bydd staff yr ysgol yn parhau i gadw llygaid barcud am unrhyw ddisgyblion sy'n dangos symptomau ac yn rhoi camau priodol ar waith os ydynt yn amau y gallai disgybl gael Covid-19."

Cysylltwyd â rhieni'r holl ddisgyblion dan sylw drwy lythyr a neges destun nos Sul.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Cynghorydd Sarah Merry: "Mae diogelwch disgyblion yn ein hysgolion yn flaenoriaeth ac mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl, ond gydag angen i ddisgyblion mewn dwy ysgol yng Nghaerdydd bellach hunanynysu, mae hyn yn ein hatgoffa'n glir nad yw Covid-19 wedi diflannu.

"Byddwn yn annog pob rhiant i barhau'n wyliadwrus a sicrhau nad yw eu plant yn mynd i'r ysgol os ydynt yn datblygu symptomau, a gofynnwn i bob preswylydd, rhiant neu berson arall, helpu i Gadw Cymru'n Ddiogel drwy ddilyn canllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru."

https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau

Chyflwyno hysbysiadau gwella diogelwch COVID-19 i fariau canol y ddinas

Cafodd pum bar poblogaidd yng nghanolfan Caerdydd hysbysiadau gwella gan swyddogion o'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir y penwythnos hwn am fethu â chydymffurfio â mesurau iechyd a diogelwch Covid-19 a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rhoddwyd hysbysiadau i Coyote Ugly a Peppermint ar Heol yr Eglwys Fair, Mocka Lounge ar Lôn y Felin, a Rum and Fizz, a Gin and Juice ar y Stryd Fawr, gan roi 48 awr iddynt i wneud newidiadau i'r ffordd maent yn gweithredu.

Os na wneir y gwelliannau angenrheidiol, gallai'r Cyngor gyflwyno hysbysiadau cau lleoliadau o dan Reoliadau Diogelu Data (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, y Cynghorydd Michael Michael: "Cyfrifoldeb busnesau yw sicrhau y cynhelir ymbellhau cymdeithasol ac y gall ei hadeiladau gael eu defnyddio mewn ffordd sy'n ddiogel i gwsmeriaid a staff sy'n lleihau'r posibilrwydd o Covid-19 yn lledaenu."

"Mae sicrhau bod y canol y ddinas yn ddiogel i ymweld ag ef yn flaenoriaeth ac mae sefyllfaoedd fel y rhai a welwyd ar Heol Eglwys Fair ar y penwythnos yn gwbl annerbyniol.

“Ni ddylai busnesau amau na fyddwn yn cymryd camau yn erbyn unrhyw safle nad yw’n gweithredu mewn ffordd ddiogel. Bydd swyddogion yn dychwelyd i’r busnesau y rhoddwyd rhybuddion gwella iddynt, ac yn ymweld â rhai eraill ledled y ddinas, ac ni fyddwn yn petruso cyn cyflwyno hysbysiadau cau os bydd angen.”

Ymwelwyd â Coyote Ugly gan swyddogion ddydd Sadwrn ar ôl i ffilm fideo ddod i’r amlwg ar y cyfryngau cymdeithasol yn dangos cwsmeriaid yn ciwio i fynd i mewn i’r lleoliad yn methu ymbellhau cymdeithasol. Ar ôl cyflwyno hysbysiad gwella ddydd Sadwrn, gweithredodd y lleoliad yn gyflym i ddatrys nifer o faterion a nodwyd ac mae’r busnes yn parhau i weithio gyda swyddogion er mwyn sicrhau cydymffurfiad â’r Hysbysiad a’r rheoliadau yn y dyfodol. Trefnwyd rhagor o arolygiadau cydymffurfio ar gyfer yr wythnos ho.

Gall aelodau’r cyhoedd sydd â phryderon am fusnes ei adrodd trwy ein canolfan gyswllt Cysylltu â Chaerdydd ar 029 2087 2088

https://www.srs.wales/en/coronavirus/improvement-notices-served.aspx